Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth
# Main Road
# Gwaelod y Garth
# Caerdydd
# CF15 9HJ

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2013**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol ffrwd-ddeuol yw Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth, ac mae'n darparu addysg i'w disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, gan ddibynnu ar ddewis y rhieni. Mae'r ysgol ym mhentref Gwaelod y Garth, tua saith milltir o Gaerdydd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch sy'n cynnwys Gwaelod y Garth, Ffynnon Taf, Tongwynlais a Nantgarw, ac nid yw dan fantais nac anfantais economaidd.

Mae 254 o ddisgyblion tair i 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 39 o blant yn y feithrinfa. Mae 24 o blant yn mynychu'r feithrinfa yn y bore, a 15 yn y prynhawn. Mae wyth o ddosbarthiadau yn y ffrwd Gymraeg, a phob un ohonynt yn ddosbarthiadau un oed. Mae'r ddau ddosbarth yn y ffrwd Saesneg yn cynnwys oedrannau cymysg. Ar hyn o bryd, mae gan 4% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny'n llawer is na chyfartaledd Cymru (21%).

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 10% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Gwyn Prydeinig yw ethnigrwydd y disgyblion yn bennaf (93%) ac mae'r gweddill naill ai'n gymysg neu Tsieineaidd. Mae tua 24% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn eu cartrefi. Mae saith disgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Ymgymerodd y pennaeth presennol â'i swydd yn Ionawr 2009.

Y gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth yn 2012-2013 yw £4,018 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Caerdydd yw £12,307 a'r lleiafswm yw £2,873. Mae Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth yn yr 28ain safle o'r 99 o ysgolion cynradd yng Nghaerdydd o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion, a'u hagweddau at ddysgu, yn nodwedd gref;
- mae ansawdd uchel y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau, hunan-barch a lles y disgyblion;
- mae athrawon yn darparu profiadau dysgu ysgogol i ddisgyblion; ac
- mae addysgu'n effeithiol ar draws yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth weledigaeth glir iawn a rennir ar gyfer yr ysgol;
- mae cyfrifoldebau clir gan bob aelod o'r uwch dîm rheoli, ac maent yn gweithio'n dda â'i gilydd a gyda'r pennaeth;
- mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn gadarn ac yn gynhwysol;
- mae'r corff llywodraethol yn gweithredu fel ffrind gwybodus a beirniadol i dîm arweinyddiaeth yr ysgol, ac mae'n cyfrannu'n effeithiol at y broses hunanarfarnu;
- mae'r ysgol wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau gwelliant ar gyfer y disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf; ac
- mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau clir a phriodol ar gyfer gwella.

## Argymhellion

A1 Ffurfioli'r cynllunio ar gyfer medrau er mwyn sicrhau dilyniant yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol

A2 Rhannu'r arfer orau mewn strategaethau asesu ar gyfer dysgu

A3 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ymateb i adborth athrawon

A4 Sicrhau bod disgyblion mwy galluog yn cael eu herio'n ddigonol mewn Cymraeg ail iaith

A5 Sicrhau bod targedau a meini prawf llwyddo yng nghynllun gwella'r ysgol yn benodol a mesuradwy

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Maent yn cyflawni safonau gwaith da mewn gwersi ac yn eu llyfrau.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llythrennedd sy'n briodol i'w hoed, ac mae lleiafrif yn rhagori ar y disgwyliadau. Mae disgyblion yn dysgu llythrennau'n gyflym, yn datblygu'u medru gwrando a siarad ac yn dysgu i ysgrifennu'n hyderus o oed ifanc. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu mewn nifer o genres a defnyddiant fedrau llawysgrifen da i gynhyrchu darnau gwaith estynedig gydag atalnodi priodol. Mae cyflwyniad y gwaith yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus.

Mae disgyblion yn parhau i wneud cynnydd trwy gyfnod allweddol 2, a defnyddiant y Gymraeg a'r Saesneg yn effeithiol mewn gwersi iaith ac yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae ganddynt fedrau siarad a gwrando da, ac maent yn ysgrifennu'n dda mewn nifer o genres. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n estynedig mewn paragraffau sydd wedi'u hatalnodi'n gywir a'u cyflwyno'n dda. Mae bron pob un ohonynt yn darllen yn rhugl a gallant drafod y cynllun a rhagweld beth fydd yn digwydd nesaf. Maent yn darllen amrywiaeth o ddeunyddiau ysgrifenedig, ac yn gallu trafod eu hoff awduron a llyfrau. Mae medrau sillafu da gan bron bob un ohonynt erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mewn Cymraeg ail iaith, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu gyda chywirdeb sy'n datblygu, yn briodol i'w hoed a'u gallu. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn siarad neu'n ysgrifennu'n estynedig bob amser.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd disgyblion yn datblygu'n dda. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae pob un o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau'n effeithiol at amrywiaeth o ddibenion.

Mae pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau a osodwyd ar eu cyfer, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl.

Yn y Cyfnod Sylfaen, llwyddodd 92% o ddisgyblion i gyflawni'r deilliant disgwyliedig yn 2012 mewn perthynas â datblygu'u medrau iaith, mathemategol a phersonol. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg.

Mewn perthynas ag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, yn sgil ei pherfformiad yn 2012 roedd yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer datblygu medrau personol disgyblion, yn y 50% uchaf ar gyfer datblygu'u medrau iaith, ond yn y 50% isaf ar gyfer datblygu'u medrau mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ychydig o dan gyfartaledd y teulu yn 2012, ond yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y pedair blynedd flaenorol.

Yn y pedair blynedd diwethaf, mae cyfran y disgyblion yn cyflawni'r lefel uwch (lefel 5) wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu, ac yn 2012 roedd yr ysgol yn y 25% uchaf mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y 50% uchaf mewn Cymraeg.

Yn 2012, mewn perthynas ag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, fe wnaeth canran y disgyblion yn cyflawni lefel 4 osod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer Cymraeg a gwyddoniaeth, yn y 50% is ar gyfer Saesneg, ac yn y 25% isaf ar gyfer mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2.

O ran perfformiad cymharol bechgyn a merched, ychydig iawn o wahaniaeth sydd yn y rheini sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes gwahaniaeth sylweddol ym mherfformiad bechgyn a merched.

**Lles: Da**

Mae agweddau cadarnhaol gan bob un o'r disgyblion at gadw'n iach a diogel, ac maent yn deall pwysigrwydd bwyta diet iach a gwneud ymarfer corff. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae presenoldeb yn dda. Mae cyfradd presenoldeb yr ysgol wedi bod ymhlith y 50% uchaf dros y tair blynedd diwethaf, o gymharu â phresenoldeb ysgolion tebyg o ran hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae ymddygiad y disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae'r holl ddisgyblion yn dangos parch at ei gilydd, eu hathrawon ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae disgyblion yn mwynhau cyfranogi yng ngwaith yr ysgol ar amrywiaeth o faterion. Teimlant eu bod yn cael eu hannog i gysylltu â'r pennaeth a'r staff gyda'u pryderon, ac maent yn mynegi'u barnau am yr ysgol yn dda drwy waith cyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco.

Mae cyngor yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gwneud ei waith yn gydwybodol ac effeithiol iawn. Mae cynrychiolwyr cyngor yr ysgol yn gweithio fel llysgenhadon sydd â rôl bwysig i'w chwarae yn helpu'r ysgol. Mae'r cyngor eco wedi trafod sut i wella diogelwch y tu allan i glwydi'r ysgol gyda chynrychiolwyr o gyngor y ddinas.

Trwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o'r ardal a'r gymuned leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae'r amrywiaeth eang o ymweliadau ysgol, fel ymweliadau â mannau o bwysigrwydd hanesyddol yn yr ardal, yn cyd-fynd â chwricwlwm yr ysgol ac yn cyfoethogi'r profiad dysgu ar gyfer disgyblion. Mae rhieni a thrigolion lleol yn ymwelwyr mynych â'r ysgol, ac maent yn ehangu'r cyfleoedd dysgu i ddisgyblion.

Mae cynlluniau athrawon yn sicrhau bod gwersi'n ysgogol a bod dilyniant yn nysgu disgyblion. Mae cynlluniau gwaith sy'n seiliedig ar themâu yn sicrhau bod sylw'n cael ei roi i holl feysydd y cwricwlwm, ac maent yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws yr ysgol. Mae ynddynt ddarpariaeth briodol ar gyfer disgyblion o bob gallu.

Caiff dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru ei hyrwyddo gan yr ysgol drwy amrywiaeth dda o weithgareddau yn y dosbarth a gweithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yr Urdd. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cael digon o gyfleoedd i ehangu'u medrau Cymraeg ail iaith, trwy waith iaith mwy heriol.

Yn gyffredinol, caiff cyfleoedd priodol eu cynnig i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau dilyniant a pharhad mewn medrau ar draws y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n dda ac mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygu cynaliadwy drwy waith ei chlwb eco a'r pwyllgor eco. Mae disgyblion yn datblygu'u dealltwriaeth o hawliau a chyfrifoldebau'r unigolyn yn dda trwy weithredu polisi parch a pherthnasoedd yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llawn cymhelliant a'u bod yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Mae gan yr holl athrawon a staff cymorth berthynas weithio dda gyda disgyblion.

Mae cynlluniau gwersi pwrpasol a chymorth gan oedolion yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y profiadau a gynigir i'r disgyblion. Mae athrawon yn sicrhau bod deilliannau dysgu yn glir mewn gwersi. Defnyddiant ystod o arddulliau ac adnoddau addysgu yn effeithiol, ac mae llawer o'r gweithgareddau yn heriol ac yn ddiddorol.

Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r holi'n ddigon heriol nac yn ddigon penagored bob amser. Yn y gwersi hyn, mae'r cyflymder yn rhy araf ac ni chaiff gwaith priodol ar gyfer pob gallu ei gynnig bob amser.

Mae athrawon yn dechrau defnyddio asesiadau o waith disgyblion i lywio cynlluniau gwersi, ac mae polisi marcio addas gan yr ysgol gyfan. Mae gwaith marcio'r athrawon o waith disgyblion yn gyson ac mae'n dweud yn briodol wrth ddisgyblion beth sydd angen iddynt wneud i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ailddrafftio a gwella eu gwaith ysgrifenedig.

Mae systemau olrhain cynhwysfawr gan yr ysgol sy'n galluogi athrawon i nodi cyrhaeddiad disgyblion yn ogystal â'r camau nesaf yn eu haddysg.

Mae'r defnydd o bortffolios o waith disgyblion a phrosesau safoni a chymedroli'r ysgol yn helpu athrawon i lefelu gwaith y disgyblion yn gywir.

Mae'r adroddiadau ar gynnydd disgyblion yn briodol, ac mae rhieni'n cael y cyfle i ymateb iddynt yn ysgrifenedig.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned ofalgar, ac o ganlyniad mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae ystod eang o bolisïau priodol yn eu lle ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles y disgyblion, ac i annog disgyblion i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Drwy ystod o strategaethau sy'n cynnwys ffocws cadarn ar hawliau a chyfrifoldebau plant, mae'r ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw fwlio.

Mae oedolion a disgyblion yn dangos parch at ei gilydd, ac mewn gweithgareddau fel amser cylch strwythuredig, caiff disgyblion gyfleoedd i drafod eu teimladau a'u lles emosiynol. Mae'r ysgol yn cydweithredu'n llwyddiannus ag ystod o asiantaethau allanol i gynnig gofal ac addysg gynhwysfawr i ddisgyblion.

Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder. Gwna'r ysgol ei gorau i sicrhau mai diogelwch disgyblion yw'r brif ystyriaeth bob amser. Fodd bynnag, mae'r lle cyfyngedig y tu allan i glwydi'r ysgol yn gwneud parcio yn anodd.

Mae darpariaeth gadarn ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithdrefnau clir gan yr ysgol i nodi disgyblion sy'n tangyflawni neu y mae angen cymorth arnynt. Drwy ymyrraeth gynnar mae'r ysgol yn sicrhau cymorth wedi'i dargedu'n dda ar gyfer disgyblion. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac athrawon yn gosod disgwyliadau uchel, ac maent yn gweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau bod gan bob disgybl gynllun addysg unigol sy'n diwallu ei anghenion/hanghenion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysfawr a gofalgar. Mae'r ethos cartrefol a chefnogol yn sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ac yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd. Caiff disgyblion eu hannog gan bob aelod o staff i ddangos parch, gofal a phryder tuag at ei gilydd ac eraill.

Mae perthynas dda gan ddisgyblion â'u cyfoedion a staff yr ysgol. Caiff pob disgybl fynediad llawn at y cwricwlwm ac mae bechgyn a merched yn cymryd rhan mewn pob gweithgaredd. Mae polisi effeithiol ar waith gan yr ysgol i sicrhau cyfle cyfartal, ac mae polisi a chynllun hygyrchedd priodol yn ei le. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y mae'n sicrhau bod pob disgybl yn cymryd rhan weithredol yn ei darpariaeth, beth bynnag yw eu cefndir.

Mae parch at amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol yn cael ei ymgorffori drwy gynlluniau gwersi addysg bersonol a chymdeithasol. Mae pob aelod o staff yn hyrwyddo gwerthoedd personol a chymdeithasol yn llwyddiannus.

Mae’r adeilad a’r cyfleusterau allanol, fel yr ardal chwarae tu allan ac ardal yr ardd, wedi’u datblygu’n effeithiol i hyrwyddo deilliannau da ar gyfer disgyblion. Mae holl ardaloedd yr ysgol yn lân ac yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda.

Caiff gwaith disgyblion ei arddangos yn ddeniadol ar fyrddau arddangos lliwgar ac ysgogol, ac maent yn cyfrannu at greu amgylchedd dysgu diddorol. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am weithgareddau’r ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, ac un o’r blaenoriaethau yw rhoi’r cyfle i bob plentyn ddatblygu ei botensial/photensial llawn ym mhob agwedd ar y cwricwlwm. Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, a rhennir y weledigaeth honno gan yr uwch dîm rheoli, y staff addysgu a’r staff cymorth a’r llywodraethwyr.

Mae cyfrifoldebau clir gan bob aelod o’r uwch dîm rheoli, a gweithiant yn dda â’i gilydd a gyda’r pennaeth. Mae synnwyr clir o ddiben, a rhennir hynny gan bob aelod o staff. O ganlyniad, mae dull cydweithredol o arwain ar draws yr ysgol. Mae strwythurau rheoli clir a chyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cyfrannu’n adeiladol at flaenoriaethau’r ysgol ar gyfer datblygu.

Mae’r corff llywodraethol yn gwbl ymroddedig i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae ganddo wybodaeth ymarferol dda am ddata perfformiad yr ysgol a’i chryfderau, ac mae’n cynnig lefel briodol o her. Mae’n gweithredu fel ffrind gwybodus a beirniadol i dîm arweinyddiaeth yr ysgol, ac mae’n cyfrannu’n effeithiol at y broses hunanarfarnu.

Mae’r ysgol yn gweithio’n dda i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae’r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llawn ac mae asesu ar gyfer dysgu yn datblygu. Mae llythrennedd wedi bod yn flaenoriaeth uchel i weithredu arni, ac mae cymunedau dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddarpariaeth.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r hunanarfarnu yn gadarn ac wedi’i ymgorffori’n dda. Mae prosesau parhaus, clir a phwrpasol gan yr ysgol i fonitro ac arfarnu safonau a deilliannau’r disgyblion, yn ogystal â’r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yr ysgol, staff addysgu, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion bob un yn cyfrannu’n effeithiol at y broses.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen ddefnyddiol a chynhwysfawr sy’n canolbwyntio’n glir ar godi safonau disgyblion a gwella darpariaeth. Mae’n cynnwys dadansoddiad defnyddiol o ddata perfformiad ac mae’n adolygu pob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae’r ysgol wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau gwelliant dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae’r effaith ar safonau a lles yn amlwg.

Mae'r ysgol wedi elwa ar waith rhwydweithiau o arfer broffesiynol yn yr ysgol a gydag ysgolion a phartneriaid eraill, yn enwedig o ran gwella'r addysgu a datblygu asesu ar gyfer dysgu. Mae aelodau staff yn manteisio ar y cyfleoedd hyn i ddatblygu'u harbenigedd.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen fanwl sy'n cynnwys nifer resymol o flaenoriaethau priodol. Mae arweinwyr yr ysgol wedi diffinio camau addas ar gyfer y blaenoriaethau hyn, ac mae'r cyfrifoldebau a'r goblygiadau ariannol yn glir. Fodd bynnag, nid yw targedau ar gyfer gwella yn cynnwys ffocws ddigon clir ar ddeilliannau mesuradwy.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod helaeth o bartneriaethau gan yr ysgol. Mae defnyddio gwefan yr ysgol, negeseuon e-bost a negeseuon testun yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol â rheini, a theimlant eu bod yn cael gwybodaeth dda am fywyd yr ysgol. Mae rhieni'n gefnogol iawn i holl weithgareddau'r ysgol. Mae cymdeithas rhieni-athrawon yr ysgol yn weithgar, ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at brynu adnoddau.

Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau pontio effeithiol gan yr ysgol â'i hysgolion uwchradd derbyn. Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu disgyblion hŷn i baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon o'r ysgol a'r ysgolion cynradd cyfagos yn gweithio'n effeithiol â chydweithwyr o'r ddwy ysgol uwchradd i sicrhau cysondeb yn asesiadau athrawon. Drwy weithio gydag ysgolion eraill, mae'r ysgol yn helpu i ariannu dau athro sy'n addysgu Ffrangeg i ddisgyblion ar draws y cyfnodau.

Ceir cysylltiadau cadarn ac amrywiol â'r gymuned. Mae disgyblion yn elwa ar ystod o ymweliadau allanol ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae ganddi gysylltiadau cadarnhaol â busnesau lleol i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda. Mae'n blaenoriaethu ac yn monitro gwariant yn ofalus, ac yn darparu adnoddau priodol ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol. Mae amrywiaeth dda o adnoddau dysgu yn yr ysgol. Mae safonau'r adeiladu yn dda, a chânt eu rheoli'n dda gan yr arweinwyr. Mae'r ysgol yn defnyddio'i staff addysgu a'i staff cymorth yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion ac i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn nodi ac yn diwallu anghenion datblygu staff yn unol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae'r trefniadau ar gyfer hyn yn cael eu rheoli'n dda.

O ystyried y defnydd effeithiol a wna'r ysgol o'i chyllid, y lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad a'r cynnydd da sy'n cael ei wneud gan bron bob un o'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen, llwyddodd 92% o'r disgyblion i gyflawni deilliant 5 (y deilliant disgwyliedig) mewn perthynas â datblygu'u medrau iaith, mathemategol a phersonol (dangosydd y Cyfnod Sylfaen). Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig (deilliant 6) ym mhob un o'r tri maes, yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion hefyd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mewn perthynas ag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, yn sgil ei pherfformiad yn 2012 roedd yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer datblygu medrau personol disgyblion, yn y 50% uchaf ar gyfer datblygu'u medrau iaith, ond yn y 50% isaf ar gyfer datblygu'u medrau mathemategol.

Yn 2012, roedd y garfan cyfnod allweddol 2 yn fach, sy'n golygu bod rhaid trin y canlyniadau asesu â gofal.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd) ychydig islaw cyfartaledd y teulu yn 2012, ond bu uwchlaw cyfartaledd y teulu yn y pedair blynedd flaenorol. Mae'r ysgol gerllaw safle gwaelod y teulu ar gyfer ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg, ac mae islaw pob un o'r cymaryddion. Mae gostyngiad dwy flynedd wedi bod o ran perfformiad mewn mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ac yn 2012 roedd islaw cyfartaledd y teulu. Yn y tair blynedd flaenorol, roedd perfformiad wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu.

Yn 2012, mewn perthynas ag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, fe wnaeth canran y disgyblion yn cyflawni lefel 4 osod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer Cymraeg a gwyddoniaeth, yn y 50% is ar gyfer Saesneg, ac yn y 25% isaf ar gyfer mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyd wedi amrywio o fod yn y 25% isaf i fod yn y 25% uchaf.

Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r lefel uwch (lefel 5) yn 2012 uwchlaw cyfartaledd y teulu, ac mae'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion yn y teulu mewn perthynas â lefelau perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y 50% uchaf mewn Cymraeg. Yn y tair blynedd flaenorol, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r lefel uwch mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth uwchlaw cyfartaledd y teulu.

O ran perfformiad cymharol bechgyn a merched, ychydig iawn o wahaniaeth oedd yn y rheini yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o ran cyflawni deilliant 6 mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes gwahaniaeth sylweddol ym mherfformiad bechgyn a merched.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiadur gan 122 o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2. At ei gilydd, mae'r ymatebion yn debyg i'r meincnodau o ran ymatebion cadarnhaol ar gyfer holl ysgolion cynradd Cymru.

Mae pob disgybl neu bron pob disgybl:

- yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n pryderu;
- yn teimlo bod yr ysgol yn eu haddysgu i gadw'n iach;
- o'r farn fod yr ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corf yn rheolaidd;
- yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- o'r farn fod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- yn gwybod beth i wneud a phwy i ofyn iddynt os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- yn dweud bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith;
- o'r farn fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol; ac
- yn dweud bd plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith.

Fodd bynnag, cred ychydig o ddisgyblion nad yw'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio, ac nad yw gwaith cartref yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Nid yw lleiafrif o'r farn fod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Fe wnaeth pedwar deg naw o rieni/gofalwyr lenwi'r holiaduron. At ei gilydd, mae'r ymatebion gan y rhieni yn debyg i'r meincnodau o ran ymatebion cadarnhaol ar gyfer yr holl ysgolion cynradd a arolygwyd yng Nghymru.

Dywed pob un neu bron pob un o'r rheini/gofalwyr:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol:
- bod yr ysgol wedi helpu'u plentyn i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
- bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- bod yr addysgu yn dda;
- bod y staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a gwneud eu gorau;
- bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn dysgu yn yr ysgol;

- bod y staff yn trin pob plentyn â pharch;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â mynd i'r ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i aeddfedu ac ysgwyddo cyfrifoldeb;
- bod eu plentyn yn cael ei baratoi/pharatoi yn dda i symud ymlaen i'r ysgol nesaf;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae ychydig o'r farn nad yw eu plentyn yn cael ei annog/hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, ac nid yw lleiafrif yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Aled Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Ann Jones | Arolygydd Tîm |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Steffan Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iwan Ellis | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.